

Y Pwyllgor Diwylliant CC-12-01(min)

COFNODION

Dyddiad: Dydd Mercher 4 Gorffennaf

Amser: 10.30am

Lleoliad: Neuadd y Dref, Dinbych

Presennol:

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

Jonathan Morgan (Ceidwadwr, Canol De Cymru)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

Ymddiheuriadau

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Swyddogion

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Richard Davies (Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol)

Yn bresennol hefyd

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor ar yr Iaith Gymraeg)

Datganiadau o fuddiant: dim

Sylwadau rhagarweiniol

Crybwyllodd y Cadeirydd iddo'n ddiweddar fynychu digwyddiad llwyddiannus a chadarnhaol a drefnwyd gan Gyngor Sir Powys ar adolygiad y Pwyllgor.

Eitem 1: Adolygiad y Pwyllgor o'r Iaith Gymraeg

Papurau: CC-12-01(p.1-4)

Sefydliad:

Cyngor Sir Ddinbych

Cynrychiolwyr:

Y Cynghorydd Gwyneth Kensler

Sioned Bowen

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Rhaid cael strwythurau a mecanweithiau addas er mwyn i'r iaith ddatblygu. Ni all yr iaith oroesi ar ewyllys da yn unig. Mae 40% o boblogaeth weithio sir Ddinbych yn gweithio yn y sector cyhoeddus ac ar y cyd ag eraill.

- Mae'n bwysig i'r Cyngor arwain o ran dwyieithrwydd, ac i bobl ifanc ac oedolion sy'n awyddus i ddysgu dderbyn yr hyfforddiant priodol. Mae darpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar hefyd yn bwysig. Mae diffyg parhad mewn addysg Gymraeg ar ôl 16 oed.
- Yn ôl cyfrifiad 1991, dim ond 57% o boblogaeth sir Ddinbych a aned yng Nghymru. Rhaid i bobl o'r tu allan i'r sir ddod i deimlo'n rhan o'r gymuned a rhaid dod â gwaith i'r ardal er mwyn annog pobl ifanc sir Ddinbych i aros yn yr ardal.
- Mae prinder dybryd o bobl broffesiynol ddwyieithog, fel therapyddion lleferydd, ac mae angen gwneud rhywbeth ynglyn â'r broblem hon.
- Nid mewn termau ariannol y dylid mesur hyrwyddo'r iaith. Yn Ewrop derbynnir dwyieithrwydd fel ffaith ac mae'n hollol naturiol. Gall Cymru ddysgu llawer o'r model Ewropeaidd.

Gwnaed y sylwadau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Er mwyn mynd i'r afael â mewnfudo ac allfudo o'r awdurdod lleol, mae'r Cyngor wedi comisiynu astudiaethau o effaith datblygiadau ac at ei gilydd nid yw'n annog datblygiadau mawr mewn pentrefi. Neilltuwyd tir hefyd ar gyfer datblygiad diwydiannol.
- Addawodd y Cynghorydd Kensler roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am yr anawsterau a wynebir gan bobl ifanc sir Ddinbych o safbwynt fforddio tai ac am y modd y mae'r Cyngor yn defnyddio'r cynlluniau prynu tai a hyrwyddir gan y Cynulliad. Addawodd hefyd anfon manylion i'r Pwyllgor am ddarpariaeth feithrin yn y sir.
- Dylai cwmnïau gyrfaoedd ystyried pa hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd trwy gyfrwng y Gymraeg a cheisio mynd i'r afael â'r diffyg pobl broffesiynol Gymraeg eu hiaith yn y GIG.

Cyngor Sir Gwynedd

Cynrychiolwyr

Dafydd Iwan

Clive James

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Nid rhywbeth ymylol yw'r iaith Gymraeg y gellir ei hatodi at bolisïau eraill. Mae'r Saesneg mor allweddol nad oes angen rhoi sylw arbennig iddi mewn dogfennau polisi; cymerir yr iaith yn ganiataol a dylem anelu at roi statws tebyg i'r Gymraeg.
- Apeliodd Mr Iwan am Ddeddf Iaith Gymraeg gryfach sy'n cydnabod amrywiadau rhanbarthol mewn darpariaeth ieithyddol.

- Un o'r sialensau mwyaf sy'n wynebu'r Cynulliad yw sut i ddiogelu ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Rhaid canfod ffyrdd o ddatganoli grym, a swyddi, o Gaerdydd i'r rhanbarthau.
- Fel awdurdod lleol, bu gan Wynedd dasg enfawr o ran newid delwedd ei chefn gwlad ac mae wedi gwneud llawer i hyrwyddo'r cyfleusterau awyr-agored rhagorol y mae'n eu mwynhau. Rhaid i'r Cyngor, fel un o'i brif swyddogaethau, amddiffyn a diogelu cymunedau lleol, fel y llwyddwyd i'w wneud yn Ardal y Llynnoedd yn Lloegr.
- Byddai Deddf Iaith Gymraeg newydd hefyd yn rhoi sylfaen gadarnach i'r iaith o fewn y sectorau preifat a chyhoeddus.
- Er hynny, dim ond trwy ewyllys da y bobl y ceir Deddf gryfach – y dull "o'r gwaelod i fyny".
- Un grwp yn y gymdeithas Gymreig a anghofir yn aml yw'r Cymry Cymraeg uniaith, nad oes ganddynt fawr o Saesneg ac sydd, pan fyddant yn sâl neu'n oedrannus, yn dychwelyd yn llwyr bron at eu hiaith frodorol. Pan gânt eu trin gan feddyg neu nyrs uniaith Saesneg, yn aml ni allant gyfathrebu â'r person hwnnw.
- Datganodd y Barnwr Roderick Evans yn ddiweddar fod yna ddadl gref dros siarad Cymraeg yn unig, yn arbennig mewn achosion o gam-drin plant lle mae'r plentyn yn rhoi tystiolaeth yn Gymraeg. Mae'n bwysig i'r rheithgor ddeall Cymraeg mewn achosion o'r fath.
- Mae Cyngor Sir Gwynedd yn gweithio'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n fedr y gallwn ei ddysgu i'n plant.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb:

- Croesawodd y Cadeirydd y ffaith fod tystiolaeth ysgrifenedig Gwynedd wedi ei drafftio yn Gymraeg ac yna ei chyfieithu. Mae normaleiddio'r iaith yn un o brif amcanion yr adolygiad.
- Nid oedd Dafydd Iwan yn hyderus ynglyn â gallu Gwynedd i gadw siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd, ond roedd arno eisiau gwneud defnydd llawn o gyllid Amcan Un er mwyn datblygu ardaloedd gwledig a chaniatáu i bobl Cymru fwynhau manteision byw mewn ardaloedd gwledig. Mae'r Cyngor yn defnyddio Cymal 106 i gyfyngu ar ddyfarnu caniatâd cynllunio, ond gall ymgeiswyr ailymgeisio am ganiatâd ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach a chael dileu'r cymal hwnnw.
- Mae angen gwell cysylltiadau trafniadaeth rhwng y Gogledd a'r De. Rhaid i ni ddatrys yr anawsterau presennol ynglyn â theithio o'r De i'r Gogledd.
- Mae addysg ar ôl 16 oed yng Nghymru yn parhau yn y traddodiad Saesneg. Ychydig iawn o gyrsiau Cymraeg sydd ar gael; mae angen i ELWA fynd i'r afael â'r diffyg hwn.

- Mae Mudiad Addysg y Gweithwyr yn gwneud gwaith da trwy sicrhau bod cyrsiau hyfforddi yn cael eu cynnal mewn sefyllfaoedd cymunedol. Cynhaliwyd rhai cyrsiau yng Ngwynedd ar stadau tai ac mae hynny wedi denu pobl na fyddent yn mynychu cyrsiau hyfforddi fel rheol.
- Ychydig y gall y Cyngor ei wneud ynglyn â mewnfudo, ond un o'i brif amcanion yw cryfhau cymunedau lleol, fel na chânt eu bygwth gan fewnfudo.

Popeth Cymraeg

Cynrychiolydd:

Ioan Talfryn

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae natur ddemograffig hen sir Clwyd wedi newid yn fawr mewn blynyddoedd diweddar; dangosodd cyfrifiad 1991 fod 41% o boblogaeth Clwyd wedi eu geni y tu allan i Gymru. Er hynny, mae llawer o blant a aned i bobl o'r tu allan i Gymru yn mynychu ysgolion Cymraeg eu cyfrwng.
- Mae addysg yn ffactor allweddol yn adfywiad yr iaith. Yr unig ffordd i sicrhau cydraddoldeb rhwng yr ieithoedd yw dysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ychydig iawn o fewnfudwyr o Loegr sy'n dysgu Cymraeg ar hyn o bryd (tua 1% o'r boblogaeth). Ond mae'r ganran honno yn uwch o lawer yng nghadarnleoedd y Gymraeg fel Gwynedd a Cheredigion.
- Gellir defnyddio rheolau cynllunio i wneud cyfraniad at oroesiad yr iaith, e.e. gallai rheoliadau ddatgan bod rhaid i'r tu blaen i bob siop fod yn ddwyieithog.
- Mae dysgu Cymraeg yn anodd yn yr amgylchiadau cymdeithasol presennol; nid ydym yn byw mewn hinsawdd naturiol ddwyieithog fel sy'n gyffredin ar y Cyfandir.
- Mae'r lefelau cyllido cyfredol a roddir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn gwbl annigonol at ddibenion cadw a hyrwyddo'r iaith.

Y Ganolfan Iaith Genedlaethol (Nant Gwrtheyrn)

Cynrychiolydd:

Aled Jones-Griffith

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Mae annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn un ffordd ymlaen i'r iaith.
- Mae rhoi gwybod i bobl pa ddarpariaeth sydd ar gael hefyd yn hanfodol ac mae Menter Iaith Gwynedd yn haeddu llawer o glod yn y maes hwn. Maent yn anfon llyfryn allan i bawb sy'n holi am brynu ty yng Ngwynedd, yn rhoi gwybod iddynt am y dosbarthiadau Cymraeg sydd ar gael ac am ddiwylliant arbennig yr ardal.
- Lleolir y Ganolfan Iaith Genedlaethol ar Benrhyn Llyn lle mae swyddi yn brin. Mae siarad Cymraeg yn un ffordd o rwymo'r cymunedau lleol hyn at ei gilydd, ond mae angen tynnu pobl ddi-Gymraeg i mewn hefyd fel eu bod yn cael eu cymhathu'n llawn â'r cymunedau hyn.
- Mae defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng i ddysgu pwnc yn aml yn fwy cynhyrchiol na dysgu Cymraeg fel pwnc.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Wrth ymateb i sylwadau a wnaed am anhawster dysgu Cymraeg, cymharodd Ioan Talfryn y Gymraeg â'r iaith Fasgeg. Dywedodd fod y Fasgeg yn arbennig o anodd i'w dysgu oherwydd nad oedd perthynas rhyngddi â ieithoedd eraill, ond er hynny roedd pobl yn gwneud ymdrech i ddysgu'r iaith oherwydd bod y cyd-destun cymdeithasol yn gwbl wahanol a'r ddeddfwriaeth a gefnogai'r iaith yn gryf.
- Teimlai Ioan Talfryn fod angen aildrefnu holl strwythur dysgu'r Gymraeg i oedolion ac y dylai pob sir fod â chanolfan iaith ar gael iddi.
- Dywedodd Aled Jones-Griffith ei bod yn anodd amcangyfrif union gost cwrs hyfforddi i unigolyn, ond amcangyfrifai y byddai'n costio £1,000 i ddysgu pobl i siarad hyd at lefel gymwys o rugledd. Yn aml nid yw dysgu Cymraeg mor ddrud â hynny i unigolyn: yn aml gall Cyfrif Dysgu Unigol gyfrannu hyd at 75% o gostau cwrs. Mae'r Ganolfan Iaith yn ystyried gwahanol bosibiliadau dysgu o bell ac yn edrych ar bosibilrwydd cynnig cyrsiau ar y we.

Sefydliad:

Cefn

Cynrychiolwyr:

Eleri Carrog

Chris Jones

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y cyflwyniad:

- Daeth Cefn i fod fel mudiad hawliau dynol ym 1985 fel ymateb i'r camgymeriad a wnaed

gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol pan erlynodd Gyngor Gwynedd gan ei gyhuddo o hiliaeth oherwydd bod y Cyngor yn dymuno rhoi gwasanaeth Cymraeg i hen bobl â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt mewn cartref henoed yn Ynys Môn.

- Mudiad gwirfoddol, amhleidiol yw Cefn, sydd â swyddfeydd yng Nghaernarfon, ond y mae ei waith yn cwmpasu Cymru gyfan.
- Nid oes gan y Gymraeg statws cyfartal fel iaith y wlad oherwydd i Gymru gael ei choncro trwy rym milwrol ym 1282. Wedi lladd Llywelyn ym 1282, daeth cyfres o gyfreithiau i fodolaeth yn erbyn y Cymry ac yn erbyn defnyddio'r iaith, ac eto nid effeithiodd hyn ar y defnydd o'r iaith gan bobl gyffredin.
- Daeth y trobwynt i'r mwyafrif o bobl gyda Deddf Addysg 1870, a wnaeth y Saesneg yn iaith addysg. Yn awr yr oedd gorfodaeth uniongyrchol ar blant i ddysgu Saesneg a chosb am siarad Cymraeg; daeth Saesneg yn "norm" ac mae cysgod yr hanes hwn yn un hir. Y nod a ddatganwyd yn glir oedd gorfodi pawb yng Nghymru i ddysgu Saesneg, a pheri tranc y Gymraeg. Mae'r gormes hwn i'w weld yn glir yn yr ystadegau: ym 1801, siaradai 90% o boblogaeth Cymru Gymraeg; erbyn 1991, y ffigwr oedd 18.7%.
- Nid yw'r drefn sydd ohoni yn disgwyl i blant o gartrefi lle siaredir Saesneg ddod yn ddwyieithog, ond mae disgwyl i blant o gartrefi Cymraeg, a gorfodaeth arnynt, i gyrraedd yr un safon yn Saesneg â phlant yn Lloegr.
- Rhaid i bobl sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio'r Saesneg yn Lloegr, ac eto nid oes gorfodaeth ar siaradwr Saesneg i ddysgu gair o Gymraeg cyn symud i Gymru i fyw a gweithio.
- At ei gilydd, caiff y Gymraeg ei thrin gan weision sifil, yr heddlu a'r llysoedd barn fel eilbeth, a'r sawl sy'n siarad yr iaith, ar y gorau, fel niwsans. Mae hiliaeth sefydliadol wedi gwreiddio'n ddwfn yng ngwasanaethau'r llywodraeth.
- Mae disgwyliadau a hunan-ddelwedd y mwyafrif o Gymry Cymraeg yn eithriadol o isel, oherwydd effaith yr hyn sydd wedi digwydd a'r hiliaeth sefydliadol y maent wedi gorfod ei hwynebu yn ddyddiol.
- Mewn gwledydd dwyieithog, fel Gwlad Belg, disgwylir i blant, erbyn iddynt gwblhau eu haddysg, fod yn rhugl yn y ddwy iaith. Nid yw'r gyfundrefn yn caniatáu i hyn digwydd yng Nghymru, ac felly mae mewnddyfodiaid nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gwanhau'r diwylliant brodorol ac yn gwanhau'r hunaniaeth genedlaethol. Nid bai'r mewnddyfodiaid yw hyn, ond bai'r drefn.

Prif gasgliadau Cefn oedd:

- Mae'r drefn bresennol yn ddinistriol i barhad y Gymraeg.
- Mae angen gweithredu'n gadarnhaol ar raddfa sylweddol i ddiogelu'r Gymraeg mewn nifer o ffyrdd.
- Mae angen i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatgan bod y Gymraeg yn iaith swyddogol ac mae angen hefyd iddo fod â'r ymrwymiad i sicrhau bod hynny'n wir. Gellir cyplysu'r datganiad â chydabyddiaeth bod y Gymraeg wedi ei thrin yn annheg oherwydd amryfal droeon hanes.
- Dylai'r Cynulliad, fel Llywodraeth Cymru, roi arweiniad ysbrydoledig i adnewyddu statws

yr iaith a sicrhau ei pharhad yng Nghymru a'r byd.

- Mae angen cyfnod o wahaniaethu'n gadarnhaol er mwyn unioni'r sefyllfa.
- Dylid sefydlu Comisiwn Cydraddoldeb i Gymru i ymchwilio a dadansoddi ac i weithio mewn modd cadarnhaol i sicrhau cydraddoldeb.
- Dylai'r sawl sy'n gweithio yn y gwasanaeth sifil a'i asiantaethau fod yn ddwyieithog, beth bynnag fo iaith eu cartref.
- Creu system o efeillio trefi a phentrefi o fewn Cymru.

Sefydliad:

Fforwm Dwyieithrwydd Gogledd Cymru

Cynrychiolydd:

Melangel Tegid

Y canlynol oedd prif bwyntiau'r cyflwyniad:

- Sefydlwyd y Fforwm ym 1997 a daeth yn batrwm da ar gyfer sicrhau dwyieithrwydd.
- Mewn trafodaethau diweddar, mae'r Fforwm wedi nodi sawl thema bwysig y mae angen ymdrin â hwy er mwyn sicrhau cryfhau cymunedau dwyieithog.
- Mae diffyg cyrsiau hyfforddi dwyieithog yng Nghymru a methiant hefyd i gydnabod sgiliau dwyieithog. Mae diffyg hyfforddiant galwedigaethol mewn amrywiaeth o swyddi ac mae angen trafodaethau i ddatblygu strategaeth genedlaethol.
- Trafododd cyfarfod diweddar o'r Fforwm dan gadeiryddiaeth Cynog Dafis AC chwech o argymhellion ynglyn â hyfforddi a recriwtio. Gofynnodd Ms Tegid i'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion hyn a'u cynnwys yn y strategaeth derfynol.
- Tameidiog yw'r ddarpariaeth Gymraeg mewn rhai gwasanaethau allweddol (fel iechyd a gwasanaethau cymdeithasol). Roedd nifer o gyrff a sefydliadau yn gweithredu polisïau recriwtio *ad hoc* braidd.

Sesiwn microffon agored

Nodwyd y sylwadau canlynol:

- Teimlai'r Cynghorydd Dafydd Jones y dylai'r Pwyllgor fod wedi neilltuo diwrnod llawn ar gyfer y cyfarfod hwn. Roedd yn siomedig bod ei ymholiadau ynglyn â'r cyfarfod wedi eu trafod gan siaradwr Saesneg uniaith.
- Dywedodd Helga Martin fod angen defnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac y dylai staff y Cynulliad ddysgu siarad Cymraeg.

- Nododd Jill Roberts o'r Rhyl fod angen rhagor o ganolfannau iaith a fyddai'n hygyrch i gymunedau lleol. Bu datblygiad ysgolion Cymraeg yn gam enfawr ymlaen i'r iaith, ond byddai adeiladu ar hynny ar gyfer oedolion yn golygu cryn fuddsoddiad. Dywedodd hefyd fod dod yn siaradwr Cymraeg rhugl yn golygu cryn amser ac ymdrech.
- Nodwyd bod llywodraeth y DU yn gwario adnoddau sylweddol ar ddysgu Saesneg i fewnfudwyr; dylid gwario swm cyfatebol ar ddysgu'r Gymraeg i fewnddyfodiaid i Gymru.
- Dywedodd aelod o'r gynulleidfa ei bod yn falch bod y Pwyllgor Diwylliant wedi dod i Ddinbych a'i bod yn gobeithio y byddai'r Cynulliad yn gwneud ymdrech i ymestyn allan i bob rhan o Gymru.
- Rhybuddiodd siaradwr arall y Pwyllgor na ddylai gymysgu rhwng pryderon am yr iaith a sylwadau am hiliaeth sefydliadol. Roedd arno eisiau gweld sefydlu Comisiwn Iaith a fyddai'n trafod cwynion yn erbyn siaradwyr Cymraeg a siaradwyr uniaith Saesneg.
- Dywedodd John Les Thomas wrth y Pwyllgor am ystyried yr iaith o safbwynt economeg. Cyfeiriodd at y ffaith fod arwyddion dwyieithog gan lawer o Dafarndai Marston yn y Rhyl ac onid yw dwyieithrwydd yn ffynnu yn y cartref neu mewn sefyllfa gymdeithasol, nid yw'n ffynnu o gwbl. Roedd yn siomedig â'r diffyg siaradwyr Cymraeg mewn swyddi allweddol yng nghyngor Sir y Fflint ac nid oedd yn sicr bod y diffyg hwn yn cael ei drin er gwaethaf honiadau i'r gwrthwyneb. Os yw'r iaith i oroesi mae angen ei rhoi ar wefusau plant ysgolion meithrin. Apeliodd at y gwleidyddion i roi'r iaith o flaen ennill pwyntiau gwleidyddol.
- Gofynnodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler am gopi o'r siatr a lofnodwyd yn ddiweddar am ieithoedd lleiafrifol Ewrop.

Diolchodd y Cadeirydd i'r rhai a oedd yn bresennol am gyfrannu at drafodaeth fywiog a llawn gwybodaeth am yr iaith.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor
Gorffennaf 2001**